ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD

Mawrth 2020

Cyngerdd Dathlu 125 – Ysgol Eifionydd

Ar nos Iau, 5ed o Fawrth, 2020 daeth rhieni a theuluoedd ein disgyblion a nifer fawr o drigolion ein hardal i ddathlu Penblwydd Ysgol Eifionydd yn 125 yn Y Ganolfan, Porthmadog. Cynhaliwyd ein Cyngerdd Mawreddog yng nghwmni un o'n cyn ddisgyblion enwocaf, Rhys Meirion. Yn ogystal â nifer o ddisgyblion dan hyfforddiant clodwiw Miss Llio Dudley gyda Mrs. Glenda Murray yn arweinydd ysbrydoledig ar y noson.

Diddorol oedd gweld arddangosfa o hanes yr ysgol wrth fynedfa'r Ganolfan, yn enwedig enghreifftiau o wisg yr ysgol ddoe a heddiw. Canolbwynt yr arddangosfa oedd darlun enfawr o bennaeth cyntaf yr ysgol, Mr John Evans M.A. (1894-1924). Croesawyd criw a chamerâu'r rhaglen Heno ar S4C i'r cyngerdd gan gyfweld ag un o sêr y sioe, Rhys Meirion ynghyd â'r pennaeth presennol Dewi Bowen. Roedd y llwyfan yn dipyn o wledd i'r llygaid gydag arddangosfa liwgar o Gennin Pedr a bathodynnau arbennig i gofio'n carreg filltir o 125 o flynyddoedd.

Clywsom ychydig o hanes yr ysgol gan Dewi Bowen a Chadeirydd ein Llywodraethwyr Ms. Nerys Jones ynghyd â nifer o ddisgyblion blwyddyn 10. Taniwyd y noson gydag unawdau offerynnol a lleisiol graenus Emma Buckley, Cadi French, Erin Davies ac Alaw Jones. Fe'n diddanwyd gan Rhys Meirion gyda'i storïau difyr am ei ddyddiau ysgol a'i anturiaethau drygionus. Fe'n swynwyd gan ei lais hudolus. Mwynhaodd y gynulleidfa berfformiad bywiog a doniol y Parti Bechgyn, a chlowyd yr hanner cyntaf gyda deuawd arbennig Lowri a Nel a llefaru gan Megan Thomas.

Yn ystod yr ail ran, rhannodd Rhys Meirion ambell stori ddifyr am ein cyn bennaeth, Mr Jackson neu 'Darth Vader' fel roedd y plant yn ei alw oherwydd ei glogyn du. Cafwyd perfformiadau gwych gan bedair chwaer ac eitemau offerynol gan Noa Griffiths a Poppy Jones ac unawd lleisiol gan Tirion Rhys. Canodd y Parti Merched 'Pererin wyf' yn hyfryd cyn cloi'r noson gyda Chôr yr ysgol yn canu 'Porthmadog', sef cân a gyfansoddwyd gan Rhys Glyn a Phyllis Evans.

Hoffai'r ysgol ddiolch i Gyngor Tref Porthmadog a Bragdy Mws Piws am eu cyfraniad ariannol tuag at y cyngerdd yn ogystal â'r staff, disgyblion, gwirfoddolwyr y Ganolfan ac wrth gwrs Rhys Meirion am eu cefnogaeth.

KORG

YSGOL EIFIONYDD
1894
125
2019